**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Diogelu Pobl a Threchu Tlodi

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 24 Hydref 2022 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | R Fogarty | A J Jeffery |
| H Lawson | A J O'Connor | J E Pritchard |
| L V Walton | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Lee Cambule | Rheolwr Gwasanaeth Trechu Tlodi |
| Jon Franklin | Arweinydd Tîm - Cydlynu Ardaloedd Lleol |
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| David Howes | Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Lisa Thomas | Uwch-gyfreithiwr |

**Hefyd yn bresennol**
Hayley Gwilliam Aelod y Cabinet dros Gymunedau (Cymorth)

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): Alyson Pugh, Aelod y Cabinet dros Les

---

**20 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**21 Cofnodion:**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Cyflawni Corfforedig Diogelu Pobl a Threchu Tlodi a gynhaliwyd ar 26 Medi 2022 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

**22 Adroddiad ar Ddatblygu Canllaw Arfer Gorau Cydlynu Ardaloedd Lleol.**

Darparodd Lee Cambule, Jon Franklin ac Aelod y Cabinet dros Gymunedau (Cymorth) adroddiad briffio i'r Pwyllgor Cyflawni Corfforedig Diogelu Pobl a Threchu

Tlodi ar ddatblygiad canllaw arfer gorau Cyngor Abertawe sy'n ymwneud â Chydlynu Ardaloedd Lleol yn Abertawe.

Pwrpas yr adroddiad oedd cyflwyno'r sefyllfa bresennol o ran rhoi Cydlynu Ardaloedd Lleol ar waith a'r cyfle i ddatblygu, cyhoeddi a hyrwyddo cyfres o ganllawiau arfer gorau er lles rhanddeiliaid, gan gynnwys aelodau, gweithwyr proffesiynol (megis ymarferwyr cyffredinol, gweithwyr cymdeithasol a rhagnodwyr lleol) ac aelodau o'n cymunedau yn Abertawe.

Roedd yr adroddiad yn Atodiad A yn amlinellu'r canlynol:

1. Crynodeb Gweithredol
2. Cyd-destun
3. Cydlynu Ardaloedd Lleol yn Abertawe
4. Yr angen am Arweiniad
5. Cynnwys – Canllaw Arfer Gorau
6. Ymagwedd at gydgynhyrchu
7. Camau nesaf

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion ac Aelod y Cabinet am yr adroddiad briffio ac roedd yn edrych ymlaen at dderbyn diweddariad rhywbryd yn y Flwyddyn Newydd.

## 23 Cynllun Gwaith 2022-2023.

Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2022-2023. Esboniodd ei fod wedi cwrdd â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn y cyfarfod diwethaf i drafod y ffordd ymlaen mewn perthynas â "Creu gweithlu i gyflwyno rhagor o wasanaethau gofal yn uniongyrchol”.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r cynllun gwaith yn amodol ar yr ychwanegiadau canlynol mewn perthynas â "Creu gweithlu i gyflwyno rhagor o wasanaethau gofal yn uniongyrchol”.

   a. Tymor byr - Cefnogi a datblygu gweithlu a Strategaeth a Chynllun Lles ar gyfer y Gyfarwyddiaeth. Arweinir gan Deb Read;
   b. Tymor canolig (mis Chwefror/mis Mawrth) - opsiynau i'r cyngor fwrw ymlaen â'r agenda ailgydbwyso yn y Gwasanaethau i Oedolion;
   c. Tymor hir (Blwyddyn ariannol newydd) - Sut bydd y cyngor yn cefnogi Llywodraeth Cymru i gael gwared ar yr agenda elw yn y Gwasanaethau i Blant.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.31 pm

**Cadeirydd**